

# CYNLLUN BLYNYDDOL BIAP

## 2026 - 2027

Blwyddyn Tri o'r Cynllun Integredig Pum Mlynedd 2024 - 2029



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd  
Addysgu Powys  
Powys Teaching  
Health Board

## Rhagair

Rydym yn falch o gyflwyno ein Cynllun Blynyddol uchelgeisiol a realistig ar gyfer 2026/27, sy'n cydnabod yr heriau sy'n ein hwynebu ac yn ailddatgan ein hymrwymiad i gyflawni gwelliannau go iawn a pharhaol mewn gofal iechyd i'n poblogaeth.

Fel erioed, rydym yn falch o'r gofal a ddarperir gan ein staff ymroddedig, cydwybodol a diwyd, sy'n parhau i'n hysbrydoli. Mae ein ffocws ar ansawdd, perfformiad a llywodraethu da yn parhau i fod yn ganolog i bopeth a wnawn, ac mae'r Cynllun yn amlinellu'r safbwynt cytbwys rydym wedi'i gymryd ar draws y meysydd hyn yn ogystal â chanolbwyntio ar adferiad ariannol. Rydym yn wynebu heriau sylweddol sy'n cyfrannu at sefyllfa ariannol ddiffygiol; fodd bynnag, fel y nodir yn y Cynllun hwn, mae gennym ddealltwriaeth glir ohonynt a chmau clir i'w datrys ar frys.

Mae'r camau gweithredu hyn yn seiliedig yn rhannol ar argymhellion yr adroddiad allanol uwchgyfeirio gan Grant Thornton a Phartneriaid. Cadarnhaodd yr adroddiad fod gennym afael a rheolaeth gadarn, a oedd wedi ein galluogi i gyflawni cynllun uchelgeisiol gyda lefelau hanesyddol o arbedion yn 2025/26; a byddwn yn cynnal y ffocws hwn yn 2026/27.

Er na fydd cyfanswm y cyfleoedd a nodwyd gan yr adroddiad yn ddigonol ynddynt eu hunain i ddileu'r diffyg sylfaenol, byddwn yn gwneud y mwyaf ohonynt yn y tymor byr i ganolig. Fodd bynnag, ni fydd camau gweithredu tymor byr yn unig yn ddigon i gyflawni cydbwysedd ariannol, nac i wneud y defnydd gorau o adnoddau yn wyneb yr angen, y galw a'r costau cynyddol. Felly mae'r cynllun hwn yn nodi ein dull

gweithredu ar draws tair dimensiwn o 'Risg, Adferiad a Chynaliadwyedd' ar gyfer y tymor byr, canolig a hir.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi gwneud newidiadau i ofal iechyd ym Mhowys i wella canlyniadau i gleifion ac wedi gwneud dewisiadau anodd hefyd wrth gomisiynu gwasanaethau. Rydym wedi cyflawni llwyddiannau o ran cynhyrchiant ac effeithlonrwydd, er enghraifft, o ran recriwtio a lleihau gwariant ar asiantaeth. Yn y tymor byr, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar effeithlonrwydd drwy foderneiddio ein modelau gwasanaeth, gwella ein trefniadau comisiynu a contractio (yn unol ag adroddiad Grant Thornton) a dod â gofal yn nes at adref ar draws ystod o wasanaethau cymunedol ac arbenigeddau gofal wedi'i gynllunio.

Yn y tymor canolig, byddwn yn parhau i adeiladu ar yr hyn a ddysgom o'r holl newidiadau hyn i drawsnewid ein gwasanaethau darparwyr a'n gwasanaethau a gomisiynwyd drwy ein rhaglen drawsnewid 'Gwella Gyda'n Gilydd', gyda ffocws penodol ar ein gwasanaethau cymunedol, iechyd meddwl a gofal wedi'i gynllunio.

Ynghyd â ffocws o'r newydd ar iechyd y boblogaeth, mae'r gwaith hwn yn rhan o'n Llwybr hirdymor tuag at gydbwysedd ariannol a chynaliadwyedd. Mae hyn yn cyd-fynd â nodau cenedlaethol yn ogystal â'n Strategaeth Iechyd a Gofal leol, a rennir, 'Powys Iach a Gofalgar' a fydd yn parhau i fod yn strategaeth arweiniol i ni tan 2029.

Dr Carl Cooper,  
Cadeirydd

Hayley Thomas, Prif  
Weithredwr

# Cynnwys

<b>Adran</b>	<b>Tudalen</b>
Rhagair	2
Cyflwyniad	5
Camau Allweddol ar gyfer Risg, Adferiad a Chynaliadwyedd	5
Fframwaith Strategol a Bwriadau Strategol	7 - 8
Asesiad y Boblogaeth	9
Sbotolau ar Iechyd y Boblogaeth – Atal yr Ataliadwy	10
Heriau, Cyfleoedd a Chryfderau	11
Sbotolau ar 'Gwella Gyda'n Gilydd'	12
Cynnydd hyd yma	13
Cyflawniadau 2025–2026	14 - 15
Sbotolau ar Lwyddiannau mewn Gofal Sylfaenol a Chlystyrau	16
Ansawdd ac Ymgysylltu	17
Mewnwelediadau gan Llais	18
Sbotolau ar Gynllunio Rhanbarthol a Chenedlaethol	19
Asesiad Perfformiad a Chomisiynu	20
Asesiad y Gweithlu	21
Asesiad a Chynllun Ariannol	22 - 25
Llwybr i Gydbwysedd Ariannol a Chynaliadwyedd	26 – 32
Meysydd Cyflawni Effaith Uchel	33
<b>Crynodeb o'r Cynllun Cyflawni 2026 – 2027</b>	
Pa wahaniaeth fydd y Cynllun hwn yn ei wneud?	34
Sut y datblygwyd y Cynllun hwn, a sut i lywio'r Cynllun Cyflawni	36
Y Cynllun ar Dudalen	38
Tudalennau Crynodeb:	
Amcanion Llesiant: Canolbwyntio ar Les, Help a Chefnogaeth Gynnar, Mynd i'r Afael â'r Pedwar Mawr, Gofal Cydgysylltiedig;	39 – 42
Galluogwyr: Dyfodol y Gweithlu, Digidol yn Gyntaf, Amgylcheddau Arloesol, Trawsnewid mewn Partneriaeth	43 – 47
<b>Atodiadau</b>	
Atodiad 1: Crynodeb o Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2026–2029	49

Atodiad 2: Gwerthusiad yn erbyn Blaenoriaethau Strategol Ysgrifennydd y Cabinet	50
Atodiad 3: Gwerthusiad yn erbyn Camau Galluogi GIG Cymru	51
Atodiad 4: Gwerthusiad yn erbyn Fframwaith Perfformiad GIG Cymru	52

# Cyflwyniad

O ystyried maint yr heriau sy'n wynebu'r sefydliad a'r GIG ehangach ar hyn o bryd, mae hwn yn Gynllun sy'n canolbwyntio ar Risg, Adferiad a Chynaliadwyedd. Mae'r Cynllun hwn yn nodi disgwyliadau clir ar gyfer y flwyddyn i ddod, gyda llinell rhwng camau gweithredu tymor byr, trawsnewid tymor canolig, a'r Strategaeth Iechyd a Gofal hirdymor a rennir.

Caiff ein Blaenoriaethau Strategol eu hadnewyddu'n flynyddol gan ystyried ein cynnydd hyd yma, risgiau, cyd-destun amgylcheddol, cyfleoedd a heriau, a Fframweithiau Cynllunio a Pherfformiad GIG Cymru a'r dyraniad ariannol.

Mae'r meysydd cyflawni allweddol wedi'u llywio gan yr adolygiad allanol annibynnol a gynhaliwyd gan Grant Thornton and Partners mewn perthynas â statws Uwchraddio'r bwrdd iechyd. Maent wedi'u halinio â Fframwaith Comisiynu Strategol a Fframwaith Strategol Anghenion Iechyd y Boblogaeth y bwrdd iechyd yn ogystal â'r rhaglen Gwella Gyda'n Gilydd. Felly, dyma gydrannau sylfaenol y Llwybr tuag at gydbwysedd ariannol a chynaliadwyedd, sef y camau gweithredu cynnar ar gyfer Blwyddyn 1. Mae'r camau gweithredu hyn yn cyflawni yn erbyn, a byddant yn darparu mewnwelediadau pellach i adnewyddu'r biblinell o gyfleoedd ar gyfer gwella yn barhaus.

## CAMAU ALLWEDDOL AR GYFER RISG, ADFERIAD A CHYNALIADWYEDD

### Risg:

- Brechu: mynd i'r afael â risg y boblogaeth (salwch tymhorol ac anadlol) a'r angen cynyddol am ofal iechyd (BS2)
- Dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o leihau'r risg o farwolaethau amenedigol a gwella gwasanaethau niwroddatblygiadol (BS3)
- Gwydnwch System: dull partneriaeth i fynd i'r afael â'r pwysau a'r oedi mwyaf ar y system (BS9 a Thrawsnewid mewn Partneriaeth)

### Cynaliadwyedd:

- Fframwaith Strategol Iechyd y Boblogaeth (BS1)
- Rhaglen Gwella Gyda'n Gilydd
  - Dull graddol ar draws y Gymuned BS3 / Iechyd Meddwl BS8 / Gofal wedi'i Gynllunio BS5 / Menywod a Phlant BS3
  - Rhyngddibyniaeth â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Rhaglen Lles Gogledd Powys a Chanolfannau Integredig
  - Aliniad â Datblygu Clwstr Cyfan
  - Allweddol i ddatblygu Strategaeth / Cynllun Gwasanaethau Clinigol
  - Cynlluniau galluogi ar gyfer y Gweithlu, Digidol, Amgylcheddau a Phartneriaeth

### Adferiad :

- Rhaglen arbedion uchelgeisiol (Sefydliad cyfan)
- Camau Gweithredu Carlam Rhaglen Gwella Gyda'n Gilydd (BS4 a BS5):
  - Gofal Cymunedol Integredig
  - Gofal wedi'i Gynllunio ac Optimeiddio Atgyfeiriadau
  - Llwybrau Iechyd Cymunedol
  - Gwella Ansawdd i gefnogi cynhyrchiant
  - Rhaglen Effeithlonrwydd Busnes
- Gofal Cymhleth a Gofal Tu Allan i'r Ardal (BS3, BS6, BS8)
- Gofal brys, gan gynnwys ymateb i gwympiadau, un pwynt mynediad, lleihau derbyniadau brys (BS9)
- Fframwaith Comisiynu Strategol – gweithredu dewisiadau comisiynu strategol a thactegol; datblygu Model Gweithredu Cyflawn (BS10)
- Gweithredoedd Galluogi: Dyfodol y Gweithlu ac Amgylcheddau Arloesol

# 'CIPOLWG' AR Y STRATEGAETH IECHYD A GOFAL AR GYFER POWYS



RYDYN NI'N DATBLYGU  
GWELEDIGAETH AR GYFER  
DYFODOL IECHYD A  
GOFAL YM MHOWYS...



BYD  
2027  
A THU  
BYWIT...



ARWEIHYDD YM MAES IECYD A GOFAL GWLEDIG INTEGRDIG

EIN NOD YW CYFLAWNI'R  
WELEDIGAETH HON  
GYDOL OES POBL  
POWYS...



FE FYDDWN NI'N  
CEFNOGI POBL I  
WELLA'U HIECHYD  
A'U LLES TRWY...



FE FYDD EGWYDDORION  
EOLUR WRTH WRAIDD  
EIN BLAENORIAETHAU  
A'R CAMAU Y BYDDWN  
NI'N EU CYMRYD...



FE FYDD DYFODOL  
IECHYD A GOFAL YN  
GWELLA TRWY...



All illustrations by ©Suzanne Design Ltd. L30 2017 www.FranChana.com

## Fframwaith Strategol

### “ Powys Iach a Gofalgar ” yw'r Strategaeth Iechyd

a Gofal hirdymor a rennir ar gyfer Powys. Mae'r strategaeth hon yn ymgorffori'r **Amcanion Lles** a nodwyd yn dilyn ymgysylltu helaeth â chymunedau a rhanddeiliaid ac yn sicrhau bod y rhain yn ganolog i Gynllun y bwrdd iechyd. Mae hyn yn allweddol i ymateb y sefydliad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

O ystyried pwysigrwydd y strategaeth, mae pob partner yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi cytuno y bydd yn cael ei hymestyn tan 2029.

Mae hyn yn parhau i gefnogi cyd-fynd â chynlluniau allweddol eraill ym Mhowys a'r rhanbarthau, gan gynnwys **Cynlluniau Clwstwr Powys** a **Chynllun Lles Powys**. Mae hyn yn ymgorffori camau lleol sy'n gyson â'r egwyddor 'datblygu cynaliadwy' yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Pum Ffordd o Weithio:

Mae hefyd yn darparu aliniad ar draws rhaglenni trawsnewid y bwrdd iechyd a Chyngor Sir Powys, yn unigol drwy **Gwella Gyda'n Gilydd** a **Phowys Gynaliadwy** yn y drefn honno, ac ar y cyd drwy **Raglen Lles Gogledd Powys**, sef y brif raglen.

Mae iechyd a lles y boblogaeth yn ffactor sy'n uno'r cyfan uchod a chytunodd y bwrdd iechyd **ar Fframwaith Strategol Iechyd y Boblogaeth** eleni, gan nodi dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth o 'atal yr ataliadwy'.

Mae hyn yn cryfhau'r ffocws ar ' **egwyddorion Marmot** ' sy'n nodi'r angen i fynd i'r afael â phenderfynyddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach lles, gan ysgogi mwy o degwch a gwella canlyniadau iechyd. Mae hefyd yn ymateb i broffil newidiol anghenion y boblogaeth (fel y nodir er enghraifft yn adroddiad 'Y GIG mewn 10+ Mlynedd' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2023 (a elwir yn Adroddiad Orford).

Mae cyd-fyndiad cryf â'r nod cenedlaethol a chamau gweithredu adnewyddedig ' **Cymru Iachach** ' yn ogystal â Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2026-2029 (a'r Blaenoriaethau a'r gofynion Gweinidogol cysylltiedig a nodir yn 'Gwella Perfformiad Gyda'n Gilydd').

## Bwriadau Strategol

Nod y cynllun yw taro cydbwysedd gofalus, ymateb i anghenion y boblogaeth, cynnal ansawdd a pherfformiad, wrth fynd i'r afael â heriau a risgiau ariannol ac eraill, gyda golwg ar gynaliadwyedd hirdymor.

### Bwriadau Strategol Allweddol :

- Cynnal a gwella **Ansawdd** a darparu gofal diogel, amserol, effeithiol, effeithlon, cyfartal ac sy'n canolbwyntio ar y person.
- Er mwyn cyflawni **effeithlonrwydd a chynhyrchiant** eithriadol, gan gynnwys lefel uchelgeisiol o arbedion, a fydd yn gofyn am ddewisiadau anodd, er mwyn lliniaru pwysau ariannol uniongyrchol
- I nodi **Llwybr clir i Gynaliadwyedd** (sy'n angenrheidiol i gyflawni dad-ddwysáu llawn a dychwelyd i Gynlluniau Tymor Canolig Integredig), gan ymateb i adroddiad Grant Thornton
- Fel rhan o'r uchod, er mwyn sicrhau gweledigaeth glir a strategaeth hirdymor, trwy waith trawsnewidiol **Gwella Gyda'n Gilydd** a fydd yn cyflawni'r hyn sy'n cyfateb i Gynllun Gwasanaethau Clinigol sy'n addas ar gyfer calon wledig Cymru.
- Meithrin capasiti a gallu'r sefydliad i ddod yn **ddarparwr a chomisiynydd enghreifftiol**, gan arwain y ffordd ar ofal iechyd gwledig ar draws **gofal heb ei drefnu a gofal wedi'i gynllunio**, gyda symudiad i atal a 'Cymunedol o'r Cychwyn'.

- Cryfhau **comisiynu strategol a thactegol** i wneud y mwyaf o bŵer punt Powys, gan adeiladu ar flwyddyn gyntaf y Fframwaith Comisiynu Strategol.
- Er mwyn meithrin mwy o **wydnwch system**, gan weithio gyda phartneriaid yn rhanbarth Powys a systemau eraill yng Nghymru a Lloegr, gan ymateb i newidiadau strategol cyfagos a chynlluniau rhanbarthol, er mwyn ystyried anghenion poblogaeth wledig Cymru yn llawn.
- I wneud effaith drwy **leihau'r galw** mewn darparwyr a gomisiynwyd, i helpu datgloi newidiadau ehangach yn y tymor canolig hyd at hirdymor er enghraifft:
  - Optimeiddio'r defnydd o adnoddau drwy **Gamau Galluogi** gan gynnwys y gweithlu, digidol a'r amgylchedd, i ryddhau enillion cynhyrchiant a chapasiti, gwella mynediad at ofal gwerth uchel, a chefnogi trawsnewid
  - **Cynyddu gwerth** : lleihau neu ddileu defnydd is-optimaidd o adnoddau, gan gynnwys Derbyniadau Meddygol Brys y gellir eu hosgoi, Hyd Arhosiadau; gwelyau cymunedol y tu allan i'r Sir gan gynnwys y rhai ar gyfer gofal diwedd oes, i gefnogi llwybrau gofal lleol o ansawdd uchel ym Mhowys
- Yn hirdymor, **atal yr ataliadwy**, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a gwella canlyniadau allweddol i boblogaeth Powys

## Asesiad y Boblogaeth

Mae'r Cynllun Blynyddol hwn yn seiliedig ar asesiad cynhwysfawr o boblogaeth Powys, fel y nodir yn:

- Asesiad o Anghenion Poblogaeth Powys [www.powysrpb.org](http://www.powysrpb.org)
- Asesiad o Anghenion Lles Powys <https://cy.powys.gov.uk/article/7602/Dadansoddiad-llawn-or-asesiad-lles>
- Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd <https://biap.gig.cymru/amdanom-ni/gwella-gydan-gilydd/dogfennau-gwella-gydan-gilydd/>

Mae disgwyliad oes dynion a menywod yn uwch ym Mhowys nag yng Nghymru, ac mae pobl yn byw'n hirach mewn iechyd da na gweddill Cymru a'r DU. Mae yna ymdeimlad cryf o gymuned ac mae arolygon yn aml yn dangos lefelau uchel o bobl yn teimlo'n hapus ac mewn iechyd da. Mae diwylliant Cymreig sy'n ffynnu fwyfwy gyda 19% yn gallu siarad Cymraeg ym Mhowys.

Fodd bynnag, mae anghydraddoldebau mewn grwpiau a daearyddiaethau. **Mae 28% o'r boblogaeth dros 65 oed**. Mae hyn yn cynyddu'r angen am iechyd a gofal, gan gynnwys canser, cyflyrau anadlol a chylchrediadol, eiddilwch a dementia. **Mae 12% o'r boblogaeth yn ofalwyr di-dâl** a bydd hyn hefyd yn cynyddu dros amser. Mae cyfran uchel o drigolion Powys yn byw ar eu pennau eu hunain. Fodd bynnag, mae yna ymdeimlad cryf o gymuned a chymuned fywiog a sector gwirfoddol sy'n darparu rhwydweithiau cymorth.

Mae gan Bowys **9 ardal yn y 30% mwyaf difreintiedig yng Nghymru**, ac mae hyn yn cyd-fynd ag anghenion iechyd mwy, gan gynnwys ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed. Mae incwm cyfartalog aelwydydd yn is ym Mhowys o'i gymharu â gweddill Cymru ac mae 4,088 o deuluoedd yn byw mewn tloidi llwyr. Mae traean o aelwydydd yn bobl sengl; rhagwelir y bydd hyn yn codi 4.2% dros ddeng mlynedd.

**Mae pobl yn aros am driniaeth ac yn aros yn yr ysbyty yn hirach** nag y dylent. Mae gormod o bobl yn treulio dyddiau olaf eu bywydau mewn Ysbytai Cyffredinol Dosbarth yn hytrach na'u cartrefi eu hunain. Mae cymhlethdod yr angen yn dwysáu, ar draws iechyd corfforol a meddyliol. Mae pwysau uniongyrchol, gan gynnwys oedi mewn gofal, yn arwain at gostau uchel am ganlyniadau gwaeth.

**Rhagwelir y bydd y galw am wasanaethau iechyd meddwl yn cynyddu hyd at 33%** dros y 10 mlynedd nesaf.

Bu **cynnydd o 49% ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc** dros 4 blynedd.

Bu **cynnydd o 39% mewn apwyntiadau cleifion allanol** rhwng 2014 a 2024.

Mae natur wledig iawn y sir a'r patrwm unigryw o wasanaethau a ddarperir a chomisiynir yn creu **rhwydwaith cymhleth** o wasanaethau a llwybrau gofal.

Mae hyn yn golygu bod edrych yn hirdymor a chymryd golwg rhyng-genhedlaethol a chyfannol ar ofal iechyd yn bwysig, er mwyn adeiladu dull cynaliadwy ar gyfer Powys.

# SBOTOLAU ar Iechyd y Boblogaeth: Atal yr Ataliadwy

Mae'r bwrdd iechyd wedi cymeradwyo Fframwaith Strategol Iechyd y Boblogaeth newydd 2025 – 2035, 'Atal yr Ataliadwy' ac mae'r cynllun hwn yn cynnwys y camau gweithredu allweddol ar gyfer y cyfnod 2026 – 2027.

Mae'r dystiolaeth yn glir, mae llawer o gyflyrau iechyd cyffredin yn ataliadwy i raddau helaeth, ond mae'r galw am drin y rhain yn tyfu ac yn gyrru costau ar draws iechyd a gofal.

Mae'r fframwaith newydd yn canolbwyntio ar ymyriadau effeithiol a chost-effeithiol ar lefel y boblogaeth, yn enwedig y rhai sy'n gwella ymddygiadau iechyd. Gall y rhain leihau ffactorau risg y gellir eu hatal yn sylweddol a gwella canlyniadau iechyd hirdymor.

Gellir gwella cyfran fawr o'r canlyniadau hyn drwy fynd i'r afael â phum ymddygiad: ysmegu, defnydd alcohol, diet gwael, anweithgarwch corfforol a gorbwysau/gordewdra.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd 2025

**Atal yr Ataliadwy:**  
Fframwaith Strategol Iechyd y Boblogaeth ar gyfer Powys 2025-2035


Mae Fframwaith Strategol Iechyd y Boblogaeth yn cydfynd yn agos â blaenoriaethau Ysgrifennydd y Cabinet yn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2026 – 2029.

Mae'n rhan o waith partneriaeth ehangach yn rhanbarth Powys, gan yrru ymlaen y dull system gyfan sy'n rhan o Gynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Strategaeth Iechyd a Gofal hirdymor sy'n cael ei goruchwyllo gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

I'r bwrdd iechyd, mae hwn yn elfen allweddol o ymateb y bwrdd iechyd i'r adolygiad allanol a gynhaliwyd gan Grant Thornton yn 2025 a'r Llwybr hirdymor ar gyfer cydbwysedd ariannol a chynaliadwyedd. Gyda'i gilydd, mae'r rhain i gyd yn pwysleisio'r angen i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol y galw yn hytrach nag ymateb i'w ganlyniadau yn unig.

Mae hyn hefyd yn fframio'r gwaith trawsnewidiol sy'n cael ei wneud drwy 'Gwella Gyda'n Gilydd' a Rhaglen Lles Gogledd Powys.

Ffigur 1.7 Y blociau adeiladu ar gyfer iechyd – amcangyfrifon canrannol o'r cyfraniad at statws iechyd



# Heriau, Cyfleoedd a Chryfderau


## Heriau

Fel y nodwyd yn yr Asesiad Poblogaeth, mae Powys yn wledig iawn, ac mae pobl yn byw mewn trefi bach, pentrefi a phentrefannau bach, ar draws chwarter o dirfas Cymru.

Mae rhwydwaith cymhleth o ddarpariaeth o ystyried y ddaearyddiaeth fawr, gyda thrigolion yn cael mynediad at wasanaethau iechyd ar draws darparwyr lluosog yng Ngogledd, Canolbarth a De Cymru ac ar draws y ffin yn Lloegr. Mae amrywioldeb o ran mynediad a pherfformiad ar draws y darparwyr hynny.

Mae'r bwrdd iechyd yn fach, gyda model gofal cymunedol a ddarperir trwy Ganolfan Ranbarthol Wledig a model hyb. Mae cynnal ansawdd y ddarpariaeth yn gofyn am adnoddau ac ymdrech ddwys ac mae prinder yn y gweithlu, fel sydd yn genedlaethol.

Mae'r ystâd yn hen, gyda dros draean wedi'i hadeiladu cyn 1948, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 12%. Mae'r adeiladau'n anodd eu cynnal a'u cadw ac nid ydynt yn addas ar gyfer darparu gofal iechyd modern. Yn yr un modd, mae mwy i'w wneud i ehangu mynediad at fand eang a data symudol a gwella mynediad digidol heb ffiniau ym Mhowys.



Yn y cyd-destun hwn, mae'r bwrdd iechyd yn wynebu pwysau ariannol sylweddol, fel llawer o rannau eraill o'r GIG, ac mae wedi cael ei roi yn Lefel Uwchraddio 4 ar gyfer Cyllid, Strategaeth a Chynllunio gan Lywodraeth Cymru.

## Cyfleoedd a Chryfderau

Mae gennym weithlu ymroddedig a gofalgar, y mae llawer ohonynt yn byw mewn cymunedau sy'n ffynnu, yn falch ac yn gymdogol ym Mhowys. Mae model gofal sylfaenol a chymunedol Powys yn un o'r rhai mwyaf datblygedig yn y wlad, gyda Meddygaeth Deuluol, nyrsio cymunedol, deintyddiaeth, fferylliaeth, optometreg, timau iechyd meddwl cymunedol, a gweithwyr iechyd proffesiynol cysylltiedig.

Mae hanes cryf o weithio mewn partneriaeth â byrddau iechyd cyfagos, yr awdurdod lleol, y trydydd sector a'r gymuned.

Mae gan Bowys rai o'r canlyniadau iechyd gorau yng Nghymru ac mae'r bwrdd iechyd yn darparu cefnogaeth i helpu pobl gwella eu ffordd o fyw, gan gynnwys gwasanaethau fel Helpa Fi i Stopio, rhagnodi cymdeithasol i hyrwyddo ffyrdd o fyw egniol, a bwyta'n iach. Mae'r rhaglen frechu hefyd yn allweddol wrth atal salwch gan gynnwys firysau anadlol tymhorol. Mae rhaglenni sgrinio yn hanfodol wrth nodi arwyddion cynnar clefyd.

Mae sylfaen gref i ddatblygu model cynradd a chymunedol enghreifftiol ar gyfer Powys, gan adeiladu ar waith i integreiddio a chysylltu gofal ar draws iechyd a gofal – yn unol â'r weledigaeth a rennir ar gyfer ' **Powys Iach a Gofalgar** ' .

## SBOTOLAU ar y Rhaglen Gwella Gyda'n Gilydd

Am yr holl resymau a nodir uchod, a nodir ymhellach yn Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd, mae angen trawsnewid, gan weithio gyda phartneriaid, staff a chymunedau.

Mae Portffolio Gwella Gyda'n Gilydd wedi'i sefydlu i wella ansawdd a chanlyniadau i'r boblogaeth drwy sicrhau bod modelau gofal a chyfluniad gwasanaethau yn y dyfodol yn darparu gwasanaethau hyfyw ac economaidd gynaliadwy sy'n diwallu anghenion Powys wledig.

Mae dull 'Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth' yn sail i'r gwaith hwn, er mwyn datblygu patrymau darparu a chomisiynu gwasanaethau yn y dyfodol. Ochr yn ochr â chynllunio hirdymor, mae ffocws ar gyfleoedd tymor byr a chanolig ar gyfer risg, adferiad a chynaliadwyedd.


Yn ystod Gwanwyn 2025, ceisiwyd barn ar yr 'Achos dros Newid' ac mae hwn wedi'i ddiweddarau yn seiliedig ar yr adborth – gyda phenodau technegol, yn ymdrin â gwasanaethau cymunedol i oedolion, iechyd meddwl a gofal sylfaenol. Nododd hyn y cyd-destun ar gyfer y rhaglen Gwella Gyda'n Gilydd, gan ymateb i nifer o newidiadau arwyddocaol gan gynnwys pandemig Covid-19, mwy o bobl yn byw gyda chyflyrau iechyd cymhleth a lluosog, galw cynyddol ac ôl-groniadau mewn rhestrau aros, a ffactorau allanol eraill sy'n arwain at gostau cynyddol i unigolion a'u cartrefi ac i'r pwrs cyhoeddus a sefydliadau gan gynnwys y bwrdd iechyd. Wrth i'r boblogaeth a chymdeithas newid, mae angen i wasanaethau iechyd newid hefyd.

Dangosodd yr Achos dros Newid yr angen am gynllun clir i ddiwallu anghenion cymunedau Powys yn y ffordd orau dros y 10 i 25 mlynedd nesaf, gan helpu pobl i aros yn iach, ac atal afiechyd, yn ogystal â sicrhau'r ansawdd gofal, profiad a chanlyniadau gorau i'r rhai sy'n defnyddio gofal iechyd.

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ac mae'r hyn a ddysgwyd wedi llywio'r camau nesaf, a nodir yn y cynllun hwn.

- Arbenigedd mewnol ac allanol wedi'i ddwyn ynghyd i herio ffyrdd traddodiadol o weithio a datblygu modelau gofal arloesol
- Gwerthusiad yn erbyn fframwaith strategol Iechyd y Boblogaeth i ganolbwyntio ar atal yr ataliadwy
- Gwaith technegol sylweddol wedi'i gwblhau i werthuso opsiynau sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys asesiadau ariannol, y gweithlu, ansawdd, perfformiad a chyflawni
- Datblygu'r model cymunedol i ymateb i awydd y boblogaeth i dderbyn gofal yn agosach at adref ac i ymateb i adroddiad Grant Thornton
- Mae'r ffrwd waith Gofal wedi'i Gynllunio yn adeiladu ar allbynnau Asesiad Strategol manwl a gwblhawyd mewn partneriaeth â Gwneud Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf gan gynnwys rheoli atgyfeiriadau.
- Mae'r meysydd cyflawni allweddol wedi'u hadlewyrchu drwy gydol y Cynllun hwn (gan gynnwys yn yr adran Gyflawni a'r Cynllun Cyflawni cysylltiedig 2026 – 2027).

## Cynnydd Hyd Yma – Rhaglen Gwella Gyda'n Gilydd



## Cyflawniadau 2025 - 2026

O ran cynnydd yn erbyn y cynllun presennol, mae pob un o'r Blaenoriaethau Strategol yn cael eu hadolygu bob chwarter gan ddangos lefel dda o gyflawni ar draws pob un o'r meysydd .

### Canolbwyntio ar Les

- Cafodd "Ataliadwy: **Fframwaith Strategol Iechyd y Boblogaeth**" ei gymeradwyo mis Medi 2025 a bydd yn galluogi dull cydlynol ac ataliol o ymdrin ag iechyd a lles.
- Safonau Cam 1 **Menter Cyfeillgar i Fabanod UNICEF** wedi'u cyflawni, gan wella canlyniadau
- Cyfraddau uchel o ran derbyn brechiadau a chyflenwi imiwneiddio effeithiol, gydag ymgysylltiad cryf gan y cyhoedd; mae dros 87% o blant yn gyfredol erbyn 5 oed.
- Cefnogodd Helpa Fi i Stopio dros 5% o'r boblogaeth ysmegu oedolion i gael mynediad at driniaeth
- Ymgyrch ymwybyddiaeth fêpio wedi'i thargedu gyda phobl ifanc, bellach ar waith ar draws ysgolion uwchradd

### Help a Chefnogaeth Gynnar

- Cynnydd sylweddol gyda **modelau gofal Gwella Gyda'n Gilydd** ar gyfer gwasanaethau cymunedol iechyd corfforol a meddyliol oedolion, ymgysylltiad eang yn fewnol ac yn allanol a chwblhau modelu galw a chapasiti a chyfres o werthusiadau
- Llwyddwyd i gyflwyno un pwynt mynediad ar gyfer brysbennu gofal **Orthopedig/Cyhyrsgerbydol**

- Mae'r Gwasanaeth **Aros yn Iach** yn cefnogi cleifion ar restrau aros y GIG i aros yn iach ac yn barod.
- Comisiynu Rhaglen GIRFT i werthuso a gyrru cyfleoedd mewn **Gofal wedi'i Gynllunio**
- Dechrau **Ymateb i Gwympiadau** Lefel 2 yn y Gymuned gan integreiddio gydag **Un Pwynt Mynediad**
- Gweler y dudalen arall am gyflawniadau pellach mewn Gofal Sylfaenol a Chlystyrau

### Mynd i'r Afael â'r Pedwar Mawr

- Mae arloesiadau wedi dod â gofal yn agosach at adref i'r rhai sydd â **chyflyrau difrifol** lluosog, ac mae gwelliannau wedi'u gwneud mewn cardioleg gymunedol, gofal diabetes a'r Rhaglen Gwella Taith Canser.
- Cafodd gwasanaethau Iechyd Meddwl gydnabyddiaeth genedlaethol fel safle arddangos ar gyfer gweithredu'r model mynediad agored o fewn yr Un Pwynt Mynediad

### Gofal Cydgysylltiedig

- Mae gweithredu'r **Fframwaith Comisiynu Strategol** wedi dechrau, a bydd yn gonglfaen ar gyfer datblygiad pellach. Mae newidiadau dros dro i wasanaethau wedi moderneiddio ac yn ailganolbwyntio **gofal cleifion mewnol ac adsefydlu** , gan wella llif cleifion a lleihau'r risg o ddatgyflyru – bydd y rhain yn llywio camau nesaf rhaglen Gwella Gyda'n Gilydd.

## Cyflawniadau 2025 – 2026 (parhad)

### Dyfodol y Gweithlu

- Arolwg Staff y GIG 2025 - cynnydd cadarnhaol o ran **ymgysylltu â staff** a diwylliant sefydliadol.
- Mae'r defnydd o'r **asiantaeth** wedi lleihau'n sylweddol, gan ddangos manteision rheolaethau ac effeithlonrwydd cryfach.
- Llwyddiannau mewn **datblygu talent** a '**Tyfu Ein Pobl Ein Hunain**' gyda phiblinellau hyfforddi fel Darpar Nyrsys, Ffisiotherapi, Radiograffydd a therapi digidol.
- Mae **datblygu arweinyddiaeth** wedi tyfu gallu arweinyddiaeth ac wedi cefnogi datblygu'r gweithlu.
- Mae effeithlonrwydd mewn prosesau **recrwtio** wedi arwain at ostyngiad o 20% yn yr Amser i Gyflogi.

### Digidol yn Gyntaf

- Gweithredu **Scan4Safety** i wella diogelwch llawfeddygol a rheoli stoc yn well.
- Mae cwblhau'r **Fframwaith Sicrwydd Seiber** yn cryfhau'r safle seiberddiogelwch.
- Mae **Caffael System Gwybodeg Radioleg** (RISP) bellach ar waith.

### Amgylcheddau Arloesol

- **Hyb Integredig Iechyd, Gofal a Lles Gogledd Powys** Achos Amlinellol Strategol/Achos Busnes

Amlinellol wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

- Achos Cyfiawnhad Busnes wedi'i ddatblygu ar gyfer cam nesaf **datblygiad Ysbyty Llandrindod**.
- Prosiectau ystadau wedi'u cyflawni'n llwyddiannus, gan gynnwys agor **ystafell fwyta'r Trallwng**.
- Dyfarniad o £90K o **Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwysio** ar gyfer achos busnes ar gyfer Hwb Integredig Heol Sba, Llandrindod.

### Trawsnewid mewn Partneriaeth

- Mae rhaglen gynhwysfawr o **ymgysylltu â rhanddeiliaid** wedi'i chynnal ar gyfer y Rhaglen Gwella Gyda'n Gilydd
- Gweithredu'r **Fframwaith Datblygu Partneriaethau** ar draws 12 partneriaeth amlasiantaeth.
- Cwblhawyd cam cyntaf yr adolygiad o **wasanaethau'r trydydd sector** gan ganolbwyntio ar gyd-fynd â blaenoriaethau strategol ac anghenion y boblogaeth.
- Lansio **gwefan Elusen Iechyd Powys**

# SBOTOLAU ar Lwyddiannau mewn Gofal Sylfaenol a Chlystyrau

## Clystyrau

- Mae dull Clwstwr Powys gyfan yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol a **gweithio ar y cyd**, gyda rhannu dysgu o fentrau llwyddiannus.
- Mae **Cynlluniau Clwstwr** ar gyfer 2026 – 2027 wedi cael eu cytuno a'u cymeradwyo gan Grŵp Gweithredol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (y Grŵp Traws-Glwstwr)
- O'r 13 prosiect Clwstwr yn 2025/26, mae 10 yn fyw ac ar y gweill, 1 wedi'i ohirio rhag dechrau oherwydd rhesymau tymhorol, 2 dan adolygiad
- Mae **Clwstwr y Canolbarth a'r De** yn paratoi i uno, gyda gweithrediad llawn ym mis Ebrill 2026

## Ymarfer Cyffredinol

- Cynyddodd y defnydd o **Ap y GIG** ar gyfer trefnu apwyntiadau meddyg teulu, canslo, ac presgripsiynau rheolaidd, gyda 26,219 o gleifion wedi cofrestru
- Dosbarthodd practisiau meddygon teulu y **brechlyn ffliw** i blant 2 i 3 oed, gan arwain at y nifer uchaf o blant yng Nghymru a gafodd y brechlyn.
- Canlyniadau **arolwg** cleifion: 4,493 o ymatebion gam gleifion: Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi cael gwrandawriad (67% bob amser); yn cael gofal da (66% bob amser); Nododd 76% fod yr amseroedd aros yn iawn/byrrach na'r disgwyl
- Cydymffurfiaeth 100% â **Safonau Mynediad** ar gyfer Ch1, Ch2 a Ch3; cyflwyniad 100% o Adroddiadau Myfyriol Canol Blwyddyn cytundebol.

## Deintyddol

- Recriwtio **ymgyngorydd endodonteg** i ddod â gofal yn nes at adref
- Gweithredu **Ileoliadau myfyrwyr Deintyddol**, i gefnogi cynllunio'r gweithlu yn y dyfodol
- Prosiect clwstwr: **Nyrs ddeintyddol eiddilwch** i sicrhau bod gan gleifion sy'n agored i niwed gynllun atal gofal y geg
- **Model 'hybrid'** cryfach rhwng gwasanaeth cyflogedig Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a model contractwr annibynnol i gryfhau gwydnwch

## Optometreg

- Mae gan 8 optometrydd y cymhwyster **rhagnodi annibynnol**
- 10 practis wedi cofrestru i ddarparu rhai agweddau ar **ofal llygaid ysbytai yn agosach at adref** (Retina Meddygol: 10 practis; Hidlo Glawcoma: 2 bractis; Monitro Glawcoma: 6 practis)

## Academi Gofal Sylfaenol a Chymunedol

- Cyflwynwyd Dysgu **Gwarchoddedig** gyda 29 o Bynciau yn cael eu cynnig a 1486 o gysylltiadau dysgwyr
- 58 o bynciau a 675 o gysylltiadau dysgwyr wedi'u cyflawni mewn **hyfforddiant clinigol ac anghlinigol**
- **Rhaglen Sylfaen Nyrsys Meddyg Teulu**: 100% wedi'i hyfforddi (pawb ond un wedi'u cadw yn y swydd)

## Ansawdd ac Ymgysylltu



Mae'r bwrdd iechyd yn mabwysiadu dull system gyfan o ymdrin ag ansawdd, gan gwmpasu'r chwe pharth yn y Ddyletswydd Ansawdd - gofal Diogel, Amserol, Effeithiol, Effeithlon, Teg, sy'n Canolbwyntio ar y Person.

Mae'r rhain wedi'u hategu gan Wybodaeth, Dysgu, Gwelliant ac Ymchwil, Arweinyddiaeth, y Gweithlu a Diwylliant.

Hyd yn hyn, y ffocws fu ar ddatblygu a chyflwyno system rheoli ansawdd gyflawn, gan sicrhau bod Cynllunio Ansawdd, Rheoli Ansawdd a Gwella Ansawdd yn hanfodol. Mae hyn wedi cynnwys aeddfedu'r Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig a'r fframwaith uwchgyfeirio mewnol. Mae'r dull hwn wedi'i arwain yn glinigol, gyda pherchnogaeth ar y gwasanaeth a goruchwyliaeth Weithredol, i hyrwyddo dysgu a gwelliant mewn diwylliant o ddiogelwch seicolegol. Mae wedi bod yn llwyddiannus wrth dargedu cefnogaeth mewn gwasanaethau Iechyd Meddwl a Niwroddatblygiad, er mwyn galluogi'r gwasanaethau hynny i gael effeithiau cadarnhaol mesuradwy ar brofiad, mynediad a pherfformiad cleifion.

Mae Fframwaith Rheoli Digwyddiadau, Atal a Rheoli Heintiau a Stewardiaeth Wrthficrobaidd i leihau Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd wedi'u hymgorffori i gefnogi dull ymatebol a thryloyw. Bu gwelliannau amlwg fel yr adroddwyd mewn sesiynau 'Ansawdd, Perfformiad a Chyflenwi Integredig' gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru, mewn rheolaeth amserol, trwy adrodd yn rheolaidd ac ymrwymiad i ddiwylliant dysgu.

Mae'r bwrdd iechyd yn sefydliad sy'n gwrando, boed hynny drwy lwybrau ffurfiol, adolygiadau allanol eraill neu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a chymunedau. Gall hyn gynnwys pryderon neu gwynion ffurfiol lle mae ymatebion amserol yn hanfodol. Mae llinell olwg glir mewn ymgysylltiad parhaus â chymunedau, o'r 10,000 o leisiau a luniodd y Strategaeth Iechyd a Gofal hirdymor a rennir, i ymgynghori ar newidiadau dros dro i wasanaethau, a sgysiau ehangach am drawsnewid gan gynnwys Rhaglen Lles Gogledd Powys a'r portffolio Gwella Gyda'n Gilydd. Cesglir adborth parhaus hefyd ar draws partneriaid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus, Llais ac eraill, i lywio mewnwelediadau.

Mae gwaith pellach wedi'i gynllunio i gryfhau'r System Rheoli Ansawdd, gweithredu'r Fframweithiau Cenedlaethol ar gyfer Gwrando ar Bobl a Phrofiad y Bobl, a mwy o sicrwydd ar wasanaethau lleol a gwasanaethau a gomisiynwyd.

## Mewnwelediadau gan Llais



Llais yw'r corff cenedlaethol, annibynnol, newydd sydd wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru yn 2023 i roi

llais cryfach i bobl Cymru yn eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae Llais yn sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn defnyddio safbwyntiau a' phrofiadau y claf i gynllunio a darparu gwell gwasanaethau iechyd a gofal. Mae Llais yn gweithio gyda chyrrff GIG lleol, gofal cymdeithasol, a darparwyr gofal y trydydd sector i sicrhau bod lleisiau cleifion yn cael eu clywed yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Mae corff Llais Rhanbarth Powys yn darparu mewnwelediadau ac adroddiadau rheolaidd, yn ffurfiol ac yn anffurfiol i'r bwrdd iechyd, i gynorthwyo gyda sganio'r gorwel, ymatebion cynnar i bryderon neu faterion a chasglu gwybodaeth i gefnogi gwneud penderfyniadau.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae Llais Powys wedi ymgysylltu â'r cyhoedd drwy grwpiau cymunedol, boreau coffi a digwyddiadau wedi'u targedu yn yr ardaloedd lleol fel marchnadoedd ffermwyr a banciau bwyd. Mae digwyddiadau wedi digwydd ar draws y sir gan gynnwys Y Drenewydd, Llanfyllin, Ystradgynlais, Crucywel a Llanfair Caereinion.

Mae ymgysylltu â chleifion a thrigolion wedi canolbwyntio ar ymgysylltu wedi'i dargedu, ag effaith uchel i ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol a materion cymunedol sy'n dod i'r amlwg. Mae Llais hefyd wedi ymweld â gwasanaethau'r GIG a gofal cymdeithasol i siarad â chleifion, trigolion a gofalwyr.

Casglwyd y themâu cyffredin canlynol mewn digwyddiadau ymgysylltu lleol (Mae'r blychau ar y dde yn dangos y aliniad â meysydd cyflawni yn y Cynllun).

- Plant a phobl ifanc
- Mynediad at wasanaethau meddyg teulu
- Gofal deintyddol y GIG
- Rôl gofalwyr a chefnogaeth gofalwyr
- Ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael
- Adborth ar bwysigrwydd gwasanaethau lleol a phryderon ynghylch gostyngiadau mewn gwasanaethau cymunedol
- Lles iechyd meddwl a chefnogaeth
- Mynediad i'r ysbyty, camau dilynol a chludeant
- Rhyddhau o'r ysbyty ac urddas
- Gofal trawsffiniol
- Cyfathrebu digidol

Blaenoriaeth Strategol  
3 Canolbwyntio ar Les

Blaenoriaeth Strategol  
4 a 5 Cymorth a

Blaenoriaeth Strategol  
8 Mynd i'r Afael â'r

Blaenoriaeth Strategol  
9 Gofal Cydgysylltiedig

Cynlluniau Galluogi  
Digidol yn Gyntaf


Mae'r wybodaeth hon yn gyfraniad gwerthfawr, ochr yn ochr ag ymgysylltu arall, at ddealltwriaeth y bwrdd iechyd o safbwyntiau a phrofiadau bywyd cleifion, gofalwyr a chymunedau.

# SBOTOLAU ar Gynllunio Rhanbarthol a Chenedlaethol

Mae'r cynllun hwn wedi'i lywio gan, ac yn ymateb i, gyd-ddibyniaethau cymhleth ar draws cynlluniau rhanbarthol a chenedlaethol a rhaglenni newid strategol. Mae Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Powys a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys yn allweddol i weithio rhanbarthol ym Mhowys, gyda Chydbwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru yn dwyn ynghyd bartneriaid yn y rhanbarth ehangach.

Ar lefel genedlaethol, mae'r bwrdd iechyd yn gweithio'n agos gyda'r Rhaglenni Strategol a'r Rhwydweithiau Clinigol a oruchwyliwr gan Berfformiad a Gwella'r GIG, a chyda phartneriaid cenedlaethol eraill gan gynnwys Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC), Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Chydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru (sy'n feicanwaith allweddol i'r bwrdd iechyd mewn perthynas â darparu gwasanaethau Arbenigol ac Ambiwlans).

Mae'r bwrdd iechyd yn defnyddio proses systematig ar gyfer sganio'r gorwel, trwy gyfrifiadau chwarterol, i alluogi cyfranogiad a chamau gweithredu wedi'u targedu ar draws partneriaethau a rhaglenni allweddol.



Nodir camau gweithredu wedi'u targedu, sy'n ymateb i, yn lliniaru ac yn manteisio ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r dirwedd strategol gymhleth hon, drwy gydol y Cynllun Cyflawni ar gyfer Blaenoriaethau Strategol allweddol ac mae camau gweithredu galluogi pellach (sy'n cwmpasu datblygu partneriaethau, cyflawni, sicrwydd a llywodraethu) hefyd wedi'u cynnwys yn yr adran 'Trawsnewid mewn Partneriaeth'.

## Asesiad Perfformiad a Chomisiynu

Mae'r cynllun wedi'i lywio gan asesiad o berfformiad a chyflenwi ar gyfer gwasanaethau Darparwr BIAP a gwasanaethau a gomisiynwyd. Mae perfformiad cyffredinol yn unol â nodau cenedlaethol fel darparwr, ac nid yw'r bwrdd iechyd mewn camau uwchgyfeirio ar gyfer unrhyw feysydd perfformiad.

Mae perfformiad mewn gwasanaethau wedi'u comisiynu yn fwy cymhleth, ar draws gofal eilaidd, gofal wedi'i gynllunio ac arbenigol yng Nghymru a Lloegr.

O ran cynnydd yn erbyn y cynllun presennol, mae pob un o'r Blaenoriaethau Strategol yn cael eu hadolygu bob chwarter ac mae'r sefyllfa ar adeg cyhoeddi'r Cynllun hwn (hyd at ddiwedd Chwarter 3 2025/26) yn dangos lefel dda o gyflawni ar draws pob un o'r meysydd. Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan y bwrdd iechyd [Cyfarfodydd y Bwrdd - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys](#) .

Mae asesiad wedi'i gynnal ar draws y disgwyliadau perfformiad, ansawdd a chyflawni allweddol yn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2026 – 2029, gan gynnwys:

- Asesiad o hyder cyflawni yn erbyn blaenoriaethau Ysgrifennydd y Cabinet
- Y sefyllfa bresennol a'r sefyllfa ragweledig yn erbyn y Camau Galluogi
- Asesiad yn erbyn mesurau allweddol Fframwaith Perfformiad GIG Cymru, gan gynnwys modelu manwl o senarios ar

gyfer llwybrau gofal wedi'u cynllunio allweddol.

Cynhaliwyd adolygiad hefyd yn erbyn y 'Canllawiau Technegol' ychwanegol a oedd yn cwmpasu gofynion deddfwriaethol a disgwyliadau polisi, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â chyhoeddiad 'Gwella Perfformiad Gyda'n Gilydd' (Haf 2025) a ddilynodd adroddiad y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Berfformiad a Chynhyrchiant GIG Cymru (Gwanwyn 2025).

Ystyriwyd aliniad â'r argymhellion a ddeilliodd o adolygiad allanol a gynhaliwyd gan Grant Thornton a Phartneriaid drwy gydol y broses gynllunio hefyd, gan arweinwyr gweithredol a chyflawni, gan gynnwys mewnbwn gan dîm y Rhaglen Gwella Gyda'n Gilydd. Ystyriwyd hyn yn systematig ac yn gynhwysfawr drwy brosesau'r Pwyllgor a'r Bwrdd.

Galluogodd hyn ystyriaeth drylwyr o'r swyddi perfformiad allweddol yng nghyd-destun bwriadau strategol y sefydliad, ansawdd gofal ac uchelgeisiau trawsnewid, a'r angen i gomisiynu o fewn adnoddau o ystyried yr heriau ariannol a nodir yn y cynllun hwn.

Roedd yr asesiad hefyd yn hanfodol i'r broses o negodi Cytundebau Hirdymor gyda darparwyr a gomisiynwyd, yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r safleoedd rhagamcanol terfynol ar draws meysydd allweddol perfformiad a chyflenwi wedi'u hatodi i'r Cynllun.

## Asesiad y Gweithlu

Mae gweithlu'r bwrdd iechyd wedi gweld newidiadau sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf a bydd y ffactorau demograffig a marchnad ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn golygu bod esblygiad pellach yn anochel ac yn angenrheidiol. Mae'r newidiadau allweddol yn cynnwys:

- Twf yng ngweithlu cyffredinol y bwrdd iechyd sy'n cyfrannu at ymdrechion i sefydlogi darpariaeth a pherfformiad, fodd bynnag mae angen newid strwythurol pellach i sicrhau bod proffil y gweithlu yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy, ac yn cyd-fynd ag anghenion y dyfodol (yn unol â'r Rhaglen Gwella Gyda'n Gilydd)
- Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran defnyddio asiantaethau gyda thuedd gyson ar i lawr (gostyngiad o 35% mewn oriau asiantaeth ac eithrio meddygol), symudiad tuag at ddefnydd cost-ffeithiol o fanciau ac ailgydbwysu datrysiadau mewn ffordd gadarnhaol.
- Mae trosiant staff wedi lleihau ond mae'n parhau i fod yn uwch na chyfartaledd GIG Cymru gyda thuedd o amgylch y rhai sy'n gadael yn gynnar (yn y ddwy flynedd gyntaf o gyflogaeth)
- Mae oedran y gweithlu hefyd yn ffactor gyda 26% o'r gweithlu yn 55+ oed, ac mae un o bob chwech yn debygol o ymddeol o fewn pum mlynedd.
- Mae lles y gweithlu ac absenoldeb oherwydd salwch yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd treigl GIG Cymru; fodd bynnag, mae'r effaith yn cael ei

chwyddo gan feintiau timau bach a modelau gwasanaeth gwledig.

- Yn galonogol, mae sefydlogrwydd nifer y staff yn 90%, sy'n adlewyrchu gweithlu mwy sefydlog; mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol a statudol wedi gwella i 88%, ac mae cydymffurfiaeth ag adolygiadau AGDP yn 80%.
- Mae cydweithwyr yn nodi balchder cryf wrth wasanaethu cymunedau Powys, lefelau uchel o weithio fel tîm, a chysylltiad cymunedol dwfn. Fodd bynnag, mae staff hefyd yn nodi lludded cynyddol, pwysau oherwydd swyddi gwag, unigedd gwledig, mynediad amrywiol at welededd arweinyddiaeth, ac awydd am lwybrau dilyniant cliriach a chyfleoedd datblygu.
- Cydnabyddir hefyd fod cydraddoldeb yn y gweithlu, diogelwch seicolegol, ac ymddygiadau parchus yn hanfodol ac mae llais staff lleol a metrigau'r gweithlu yn dangos y gall profiadau o welededd arweinyddiaeth, mynediad at ddatblygiad, a chefnogaeth amrywio'n sylweddol yn ôl daearyddiaeth a maes gwasanaeth.

Mae'r dystiolaeth hon yn dangos yr angen i optimeiddio'r gweithlu, gwella cynhyrchiant, ailgynllunio cymysgedd sgiliau, a rheoli sefydliadau, gan adeiladu ar lwyddiannau lleol fel darpariaeth ddigidol, gwasanaethau cymunedol integredig, a phiblinellau "tyfu ein pobl ein hunain" (e.e., Cynlluniau Darpar Nyrsys, Ffisiotherapyddion a Radiograffwyr a recriwtio rhyngwladol).

Mae'r Cynllun hwn yn nodi'r camau pellach sy'n cael eu cymryd i sicrhau dull cadarn o ddatblygu a chynllunio'r gweithlu, yn unol â'r Rhaglen Gwella Gyda'n Gilydd.

## Asesiad a Chynllun Ariannol

Mae'r Cynllun hwn yn ymateb i un o'r cyfnodau mwyaf heriol yn hanes y GIG ym Mhowys. Eleni, fel yn y blynyddoedd diwethaf, nid yw wedi bod yn bosibl cynhyrchu cynllun sy'n cydymffurfio'n llawn mewn perthynas â'r ddyletswydd adennill costau ariannol dros gyfnod o dair blynedd. Mae anghydbwysedd cynyddol rhwng gwariant ac incwm y bwrdd iechyd. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn gweithio gyda chymunedau a rhanddeiliaid i adeiladu dull cynaliadwy yn ariannol a gweithredu newid i'r her ariannol sy'n ein hwynebu. **Mae'r bwrdd iechyd mewn cyfnod o Newid Ariannol.**

Mae pwysau chwyddiant a thwf galw sylweddol parhaus ar ofal iechyd, yn deillio o cyfres gyfunol a chymhleth o heriau a gydnabyddir yn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru ac a archwiliwyd yn fanwl yng nghyd-destun strategol y cynllun hwn. Mae newidiadau demograffig, sydd wedi'u nodi'n genedlaethol, yn arbennig o ddifrifol yn sir wledig Powys, sydd ar flaen y gad o ran y boblogaeth sy'n heneiddio, gyda thystiolaeth o faich cynyddol o afiechyd a chynnydd yn nifer y rhai sy'n wynebu heriau iechyd lluosog. Yn ogystal, effaith hirdymor y pandemig ar fynediad at ofal iechyd; ôl-groniadau sylweddol mewn triniaeth; pwysau system gylchol a thwf yn y galw ac anawsterau wrth recriwtio a chadw'r gweithlu sydd ei angen ar draws iechyd a gofal.

Mae'r heriau hyn yn effeithio ar allu'r bwrdd iechyd i gyflawni cynllun mantoli ariannol, ac mae'r Bwrdd wedi penderfynu nad yw'n bosibl gwneud hynny yn 2026/27.

Bu holi difrifol ac arwyddocaol ynghylch y ffactorau sy'n gyfrifol am y sefyllfa ariannol yn y cyd-destun hwn, er mwyn cytuno ar safbwynt sy'n cynrychioli cydbwysedd derbyniol o risg. Mae'r safle yn amodol ar ffocws a gweithredu parhaus gan y Bwrdd a rheolaeth ragweithiol gref o'r risgiau a'r cyfleoedd.

Mae gwerthusiad trylwyr a hirfaith wedi'i gynnal i sicrhau bod y Cynllun yn gosod y lefel angenrheidiol o ddarpariaeth i ddiwallu anghenion gofal iechyd uniongyrchol poblogaeth Powys, gan yrru trawsnewidiad ymlaen i adeiladu dull mwy cynaliadwy.

Mae'r bwrdd iechyd yn gweithio i ddyrannu'r adnoddau sydd ar gael i'r lle cywir er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau i'r boblogaeth am y gost leiaf, yn unol â'r Strategaeth Iechyd a Gofal hirdymor 'Powys Iach a Gofalgar'. Bydd deall canlyniadau a phrofiad y boblogaeth, y sail dystiolaeth a chostau cymharol yn galluogi'r bwrdd iechyd i gynyddu gwerth ei wasanaethau. Mae'n sbardun sylweddol i'r dull gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth, sy'n cael ei ymgorffori yn y sefydliad gyda chefnogaeth tîm craidd ac arbenigol sy'n canolbwyntio ar drawsnewid.

Nod y cynllun yw gwneud y mwyaf o'r adnoddau a ddyrennir ac ymdrechu i ddarparu gofal diogel, amserol, effeithiol, effeithlon, teg a chanolbwyntio ar y person wrth wynebu'r her o gyflawni cynllun ariannol mor economaidd â phosibl, gan gydnabod ei fod ym 2026/27 ymhell o fod y Cyfanswm Rheoli Targed a osodwyd gan Lywodraeth Cymru o ddiffyg o £12m.

## Aseiad a Chynllun Ariannol (parhad)

### Cynllun Ariannol ar gyfer 2026/27

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar Lefel uwchgyfeirio 4 (ymyrraeth dargedig) ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio o fewn fframwaith goruchwyllo ac uwchgyfeirio GIG Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, yn ystod rhan olaf 2025/26 mae'r bwrdd iechyd wedi derbyn cefnogaeth allanol i helpu nodi a dechrau gwneud gwelliannau ariannol ychwanegol. Mae'r cynllun ariannol wedi'i ddatblygu yn seiliedig ar ddyraniadau cyllid Llywodraeth Cymru wedi'u cadarnhau, pwysau cost a aseswyd o ran risg a safbwynt uchelgeisiol a heriol o botensial arbed costau, sydd wedi'i lywio gan y gefnogaeth allanol.

Atgynhyrchir yr argymhellion allweddol a'r meysydd cyfle o waith Grant Thornton yn y tabl isod ac maent wedi'u cynnwys yn natblygiad y cynllun ariannol ar gyfer 2026/27 a'r map llwybr hirdymor i gynaliadwyedd:

Activity	Estimated impact p.a.
Commissioning maturity approach to reduce English activity	£0.4 million
Transformation to commissioning led focus reduces average annual contract growth	£7.7 million
5% reduction JCC commissioned activity	£2.4 million
Referral protocols and control mechanisms	£3.8 million
Repatriate activity and provide locally or with greater productivity	£0.7 million
Outpatient waiting lists validation exercise and reductions	£0.5 million
Mental Health out-of-area placement reduction	£0.8 million
NHS standard contracting	£2.4 million
CHC in depth clinical commissioning review	£6.4 million
Improved financial efficiency delivery	£2.5 million
Total	£27.6 million

Please note - values included are conservative estimates based on experience elsewhere applied to PTHB data. The actual numbers will differ.

Mae'r bwrdd iechyd yn wynebu her ariannol sylweddol, oherwydd cyfuniad o bwysau nad ydynt yn unigryw i'r sefydliad hwn. Gwnaed gwerthusiad manwl o dybiaethau ariannol allweddol yn ystod cyfnod chwe mis Datblygu'r Cynllun, gan gydweithio'n agos â'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio a Chyflenwi Ariannol o fewn Gweithrediaeth GIG Cymru.

Mae'r broses werthuso hon wedi cynnwys cyfres o sesiynau Datblygu'r Bwrdd lle mae'r gyrrwyr ariannol, yn enwedig y pwysau chwyddiant allweddol a meysydd twf galw a gwasanaeth, wedi cael eu gwerthuso:

- Pwysau chwyddiant mewn perthynas â thwf cyflogau gan gynnwys codiadau cyflog i asiantaethau.
- Trefniadau codi Darparwyr a Chomisiynwyr GIG Cymru a GIG Lloegr.
- Gweithgarwch a thwf chwyddiant mewn perthynas â Gofal Iechyd Parhaus a Gofal Nyrsio a Ariennir.
- Ystyriaethau chwyddiant eraill nad ydynt yn ymwneud â chyflogau sy'n effeithio ar Ddarparwyr BIAP a Gwasanaethau a Gomisiynir (gan ddefnyddio deallusrwydd Mynegeion Prisiau Defnyddwyr).
- Chwyddiant mewn perthynas â Rhagnodi a Chyffuriau Cost Uchel (gan ddefnyddio Adroddiad Archwilio Rhagnodi Cymru Gyfan)
